



WALES AUDIT OFFICE  
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Archwilydd Cyffredinol Cymru  
Auditor General for Wales

# Safbwynt y Defnyddiwr am Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl – **Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr**

Blwyddyn archwilio: 2017-18

**Dyddiad cyhoeddi:** Hydref 2018

Cyfeirnod y ddogfen: 853A2018-19

Lluniwyd y ddogfen hon at ddefnydd mewnol Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr fel rhan o waith a wneir/i'w wneud yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Nid oes unrhyw gyfrifoldeb ar yr Archwilydd Cyffredinol na staff Swyddfa Archwilio Cymru mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog na chyflogai arall yn unigol, nac i unrhyw drydydd parti.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, yn cynnwys ymgynghori â thrydydd partiön perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partiön perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu aildefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn [swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru](mailto:swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru).

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

Roedd y tîm a gyflawnodd y gwaith yn cynnwys Sara Jane Byrne a Martin Gibson o dan gyfarwyddyd Huw Rees.

# Cynnwys

Roedd y rhan fwyaf o ddefnyddwyr gwasanaeth y gwnaethom siarad â nhw yn fodlon ar y gwasanaeth addasiadau tai ond nid yw'r Cyngor yn manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i wella'r gwasanaeth a sicrhau gwerth am arian.

**Adroddiad cryno** 4

## Adroddiad Manwl

Mae'r Cyngor wedi pennu nodau clir ar gyfer y gwasanaeth addasiadau tai, gan gydnabod y gwahaniaeth y gall ei wneud i fywydau pobl, ond cyfyngedig yw'r camau gweithredu a nodwyd ganddo i wella'r gwasanaeth. 7

Mae'r rhan fwyaf o ddefnyddwyr gwasanaeth y gwnaethom siarad â nhw yn fodlon ar y gwasanaeth addasiadau tai ac yn teimlo bod yr addasiadau wedi'u helpu gyda'u hanghenion. 8

Roedd y rhan fwyaf o ddefnyddwyr gwasanaeth o'r farn bod y broses gwneud cais yn hawdd, ond mae'r Cyngor yn cael ymholiadau rheolaidd nad yw yn y sefyllfa orau i'w hateb am fod partïon allanol eraill yn dod yn rhan o'r broses wrth iddi fynd rhagddi. 9

Gallai'r Cyngor wneud mwy i helpu defnyddwyr gwasanaeth i wneud penderfyniadau hyddysg ynghylch pa asiant ac adeiladwr y dylent eu defnyddio ac atgyfnerthu ei drefniadau ar gyfer eu goruchwyllo, gan sicrhau yn benodol fod adeiladwyr yn ddiogel i weithio yng nghartrefi pobl sy'n agored i niwed 11

Roedd y rhan fwyaf o ddefnyddwyr gwasanaeth yn fodlon ar yr amser a gymerodd y Cyngor i gymeradwyo eu haddasiadau tai, ond mae'r amser y mae'r Cyngor yn ei gymryd i ddarparu addasiadau wedi cynyddu yn ystod y blynyddoedd diwethaf 13

Mae lle i'r Cyngor atgyfnerthu ei drefniadau ar gyfer gwerthuso'r gwasanaeth addasiadau tai er mwyn ei helpu i ddysgu a gwella'r gwasanaeth 15

# Adroddiad cryno

## Crynodeb

### Yr hyn y gwnaethom edrych arno

- 1 Yn 2017-18, cwblhaodd Swyddfa Archwilio Cymru waith i ddeall 'safbwynt y defnyddiwr gwasanaeth' ym mhob cyngor yng Nghymru. Mabwysiadwyd dull gweithredu cymharol debyg ym mhob cyngor, ond cytunwyd ar y ffocws penodol a'r ffordd y câr'r adolygiad ei gynnal yn unigol. Yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr (y Cyngor), canolbwyntiwyd ar y gwasanaeth addasiadau tai/grantiau cyfleusterau i'r anabl. Yn benodol, ceisiwyd ateb y cwestiwn: a yw anghenion, profiadau a dyheadau defnyddwyr gwasanaethau yn llywio'r gwaith o gynllunio a darparu gwasanaethau er mwyn diwallu eu hanghenion yn well? Mae 'cynnwys' yn un o'r pum ffordd o weithio a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.
- 2 Canolbwyntiodd yr adolygiad yn bennaf ar brofiad y defnyddiwr gwasanaeth o'r broses addasiadau tai/grantiau cyfleusterau i'r anabl, ond ystyriwyd y broses asesu gynharach cyn i'r gwaith adeiladu ddechrau.
- 3 Mae'r canfyddiadau yn yr adroddiad hwn yn seiliedig ar y gwaith maes a wnaed gennym rhwng mis Mehefin a mis Gorffennaf 2018. Cynhaliwyd arolwg dros y ffôn o 54 o'r 222 o ddefnyddwyr gwasanaeth a oedd wedi cael grant cyfleusterau i'r anabl ac yr oedd y gwaith wedi'i gwblhau yn eu cartrefi yn y flwyddyn flaenorol. Gwnaethom hefyd gyfwrdd ag amrywiaeth o uwch swyddogion a staff gweithredol o wasanaeth addasiadau tai'r Cyngor. Gwnaethom hefyd siarad ag uwch swyddogion Landlord Cymdeithasol Cofrestredig, sef Tai Cymoedd i'r Arfordir Cyf<sup>1</sup>, a Gofal a Thrwsio Sir Pen-y-bont ar Ogwr<sup>2</sup> ac adolygu dogfennau'r Cyngor.
- 4 Rydym hefyd wedi defnyddio canfyddiadau ac argymhellion Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru ar Addasiadau i Dai<sup>3</sup>.

1 Mae Tai Cymoedd i'r Arfordir Cyf (V2C) yn sefydliad nid er elw. Mae'n darparu gwasanaethau rheoli, cynnal a chadw a gwella i 5,500 o gartrefi rhent, y mae pob un ohonynt yn ardal Cyngor Pen-y-bont ar Ogwr. Sefydlwyd V2C drwy drosglwyddo stoc dai o'r Cyngor yn 2003. [www.v2c.org.uk](http://www.v2c.org.uk)

2. Sefydlwyd Gofal a Thrwsio Sir Pen-y-bont ar Ogwr yn 1988 er mwyn helpu pobl hŷn ac anabl ym Mhen-y-bont ar Ogwr i fyw'n annibynnol. Ei nod yw rhoi arbenigedd, cyngor a chymorth ymarferol o ansawdd uchel i bobl dros 50 oed y mae angen gwneud gwaith atgyweirio, adnewyddu neu addasu ar eu cartrefi. Gwneir hyn er mwyn helpu perchenogion tai neu denantiaid y sector preifat i barhau i fyw gartref yn annibynnol, yn gyfforddus ac yn ddiogel. [www.careandrepair.org.uk](http://www.careandrepair.org.uk)

<sup>3</sup> Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru ar Addasiadau i Dai. Mae'r adroddiad hwn yn ystyried a oes gan gyrrff cyhoeddus, sy'n gyfrifol am ddarparu addasiadau i dai, ddull gweithredu strategol effeithiol sy'n sicrhau gwerth am arian, a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2018 <http://www.audit.wales/cy/cyhoeddi/addasiadau-tai>

- 5 Daethom i'r casgliad fod y rhan fwyaf o ddefnyddwyr gwasanaeth y gwnaethom siarad â nhw yn fodlon ar y gwasanaeth addasiadau tai ond nid yw'r Cyngor yn manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i wella'r gwasanaeth a sicrhau gwerth am arian. Daethom i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:
- Mae'r Cyngor wedi pennu nodau clir ar gyfer y gwasanaeth addasiadau tai, gan gydnabod y gwahaniaeth y gall ei wneud i fywydau pobl, ond cyfyngedig yw'r camau gweithredu a nodwyd ganddo i wella'r gwasanaeth.
  - Mae'r rhan fwyaf o ddefnyddwyr gwasanaeth y gwnaethom siarad â nhw yn fodlon ar y gwasanaeth addasiadau tai ac yn teimlo bod yr addasiadau wedi'u helpu gyda'u hanghenion.
  - Roedd y rhan fwyaf o ddefnyddwyr gwasanaeth o'r farn bod y broses gwneud cais yn hawdd, ond mae'r Cyngor yn cael ymholiadau rheolaidd nad yw yn y sefyllfa orau i'w hateb am fod partion allanol eraill yn dod yn rhan o'r broses wrth iddi fynd rhagddi.
  - Gallai'r Cyngor wneud mwy i helpu defnyddwyr gwasanaeth wneud penderfyniadau hyddysg ynghylch pa asiant ac adeiladwr y dylent eu defnyddio ac atgyfnerthu ei drefniadau ar gyfer eu goruchwyllo, gan sicrhau yn benodol fod adeiladwyr yn ddiogel i weithio yng nghartrefi pobl sy'n agored i niwed.
  - Roedd y rhan fwyaf o ddefnyddwyr gwasanaeth yn fodlon ar yr amser a gymerodd y Cyngor i gymeradwyo eu haddasiadau tai, ond mae'r amser y mae'r Cyngor yn ei gymryd i ddarparu addasiadau wedi cynyddu yn ystod y blynyddoedd diwethaf.
  - Mae lle i'r Cyngor atgyfnerthu ei drefniadau ar gyfer gwerthuso'r gwasanaeth addasiadau tai er mwyn ei helpu i ddysgu a gwella'r gwasanaeth.

## Cynigion ar gyfer Gwella

### Arddangosyn 1 – cynigion ar gyfer Gwella

Mae'r tabl isod yn nodi'r cynigion ar gyfer gwella a nodwyd gennym yn dilyn yr adolygiad hwn.

Cynigion ar gyfer gwella	
C1	Dylai'r Cyngor ystyried yn fwy cyffredinol sut y gall ei wasanaeth addasiadau tai gyfrannu at gyflawni ei nod strategol sef, 'Sicrhau bod Sir Pen-y-bont ar Ogwr yn lle y mae pobl yn dymuno byw ynddo, gyda dewis o dai fforddiadwy a chynaliadwy o ansawdd uchel sy'n briodol i anghenion pob aelwyd' a'r camau gweithredu tymor canolig a thymor hwy sydd eu hangen i wneud hyn. Wrth wneud hynny, dylai ystyried sut y gall gymhwyso'r pum ffordd o weithio o'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) er mwyn ei helpu i wneud hyn a'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant.
C2	Dylai'r Cyngor atgyfnerthu ei drefniadau ar gyfer gwerthuso'r gwasanaeth addasiadau tai er mwyn helpu'r Cyngor i wella'r gwasanaeth. Mae hyn yn cynnwys gwella cynllun yr arolwg o ddefnyddwyr gwasanaeth a'i ymestyn i gynnwys pob defnyddiwr gwasanaeth a chynyddu ymwybyddiaeth o'r arolwg a'r canlyniadau ym mhob rhan o'r sefydliad.
C3	Dylai'r Cyngor helpu defnyddwyr gwasanaeth i ddeall y broses sy'n cynnwys nifer o sefydliadau ac sy'n aml yn gymhleth drwy roi trosolwg clir a syml o'r broses grant o'r dechrau i'r diwedd.
C4	<p>Dylai'r Cyngor roi'r argymhellion a wnaed gan Archwilydd Cyffredinol Cymru yn ei adroddiad ar addasiadau tai yn 2018, ar waith yn llawn, yn enwedig Argymhelliad 6 y dylid cyflwyno systemau ffurfiol ar gyfer achredu contractwyr i ymgymryd ag addasiadau gan gynnwys datblygu systemau effeithiol i reoli a gwerthuso perfformiad contractwyr.</p> <ul style="list-style-type: none"><li>Dylai'r Cyngor sicrhau fod ganddo drefniadau ar waith i fonitro a rheoli perfformiad trydydd partion sy'n rhan o broses grant cyfleusterau i'r anabl. Dylid rhannu'r wybodaeth hon am berfformiad â defnyddwyr gwasanaeth er mwyn llywio eu penderfyniad ynghylch pa asiant ac adeiladwr y dylent eu cyflogi i gyflawni'r addasiadau i'w tai.</li><li>Bydd achredu contractwyr yn ffurfiol a monitro boddhad defnyddwyr yn barhaus yn bodloni'r Cyngor bod mesurau digonol ar waith i ddiogelu defnyddwyr gwasanaeth sy'n agored i niwed pan fydd adeiladwyr yn mynd i mewn i'w cartrefi.</li></ul>
C5	Mae angen i'r Cyngor sicrhau ei hun bod ganddo reolaethau priodol ar waith i oruchwylio'r broses addasiadau yn effeithiol, am mai'r Cyngor sy'n gyfrifol yn y pendraw am ddarparu'r addasiad.

## Roedd y rhan fwyaf o ddefnyddwyr gwasanaeth y gwnaethom siarad â nhw yn fodlon ar y gwasanaeth addasiadau tai ond nid yw'r Cyngor yn manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i wella'r gwasanaeth a sicrhau gwerth am arian

Mae'r Cyngor wedi pennu nodau clir ar gyfer y gwasanaeth addasiadau tai, gan gydnabod y gwahaniaeth y gall ei wneud i fywydau pobl, ond cyfyngedig yw'r camau gweithredu a nodwyd ganddo i wella'r gwasanaeth

- 6 Mae'r Cyngor wedi diffinio nodau ac amcanion strategol y gwasanaeth addasiadau tai, a'r pwerau y gall gymryd camau yn unol â nhw, yn ei Bolisi Adnewyddu Tai'r Sector Preifat ac Addasiadau i'r Anabl 2016. Yng Nghynllun Busnes ei Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Gweithredol a Phartneriaeth ar gyfer 2017-2018, mae'r Cyngor yn nodi mai un o nodau strategol y Cyngor yw: 'Sicrhau bod Sir Pen-y-bont ar Ogwr yn lle y mae pobl yn dymuno byw ynddo, gyda dewis o dai fforddiadwy a chynaliadwy o ansawdd uchel sy'n briodol i anghenion pob aelwyd.' Er mwyn helpu i gyflawni'r nod strategol hwn, mae'r Cyngor wedi nodi cyfres o flaenoriaethau gwella sy'n cynnwys y canlynol: Helpu pobl i fod yn fwy hunanddibynnol (Blaenoriaeth Wella Dau).
- 7 Er mwyn helpu i gyflawni'r nod strategol hwn, mae'r Cyngor wedi pennu dwy dasg i'w Swyddog Adnewyddu Cynaliadwy, sef:
  - datblygu holiadur i'w anfon at dderbynwyr grant ar ôl i waith gael ei gwblhau fel y gellir casglu data perthnasol; a
  - chydgysylltu â thîm Therapi Galwedigaethol y Gwasanaethau Cymdeithasol, Gofal a Thrwsio ac asiantaethau eraill er mwyn sicrhau na cheisir yr un data gan dderbynwyr grant ac atal derbynwyr oedrannus rhag cael eu gorlwytho, o bosibl, â gwybodaeth.
- 8 Fodd bynnag, prin fydd effaith y camau gweithredu hyn o ran helpu i gyflawni nod strategol y Cyngor a gwella profiad defnyddwyr. Dylai'r Cyngor ystyried yn fwy cyffredinol sut y gall ei wasanaeth addasiadau tai gyfrannu at gyflawni ei nod a'r camau gweithredu tymor canolig a thymor hwy sydd eu hangen i wneud hyn. Wrth wneud hynny, dylai ystyried sut y gall gymhwyso'r pum ffordd o weithio<sup>4</sup> o'r Ddeddf

<sup>4</sup> Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn nodi, er mwyn gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy '...sy'n ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau.', fod yn rhaid i gyrrff cyhoeddus ystyried y 'pum ffordd o weithio', sef: • edrych i'r hirdymor

Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) er mwyn ei helpu i wneud hyn.

## Mae'r rhan fwyaf o ddefnyddwyr gwasanaeth y gwnaethom siarad â nhw yn fodlon ar y gwasanaeth addasiadau tai ac yn teimlo bod yr addasiadau wedi'u helpu gyda'u hanghenion

- 9 Yn ein harolwg o ddefnyddwyr gwasanaeth, roedd 94% o'r ymatebwyr o'r farn bod yr addasiad wedi'u helpu gyda'u hanghenion. Roedd 96% yn fodlon ar ansawdd cyffredinol y gwasanaeth addasiadau tai a ddarperir gan y Cyngor.
- 10 Mae'r cyfrifoldeb am yr addasiad i'r tŷ yn newid wrth i'r broses fynd rhagddi ac nid yw'r Cyngor yn rheoli pob cam. Rôl yr asiant ym mhroses grantiau cyfleusterau i'r anabl yw cefnogi'r defnyddiwr gwasanaeth drwy gydol y broses adeiladu gyfan a thelir ffi am gyflawni'r rôl honno. Er y gellir dewis p'un ai i ddefnyddio Asiant ai peidio, dim ond un o'r 222 o ddefnyddwyr gwasanaeth a gwblhaodd broses grantiau cyfleusterau i'r anabl yn y flwyddyn ddiwethaf na ddefnyddiodd wasanaethau Asiant.
- 11 Y llynedd, Gofal a Thrwsio Sir Pen-y-bont ar Ogwr oedd yr asiant ar gyfer 170 o'r 222 o brosiectau addasu tai. Gofynnodd Gofal a Thrwsio Sir Pen-y-bont ar Ogwr i'r defnyddwyr gwasanaeth a oedd wedi'i gyflogi am eu barn ar ôl i'r gwaith addasu gael ei gwblhau. Cwblhawyd addasiadau ar gyfer 97 o ddefnyddwyr gwasanaeth rhwng mis Hydref 2017 a mis Mawrth 2018. Gofynnodd arolwg byr dros y ffôn Gofal a Thrwsio Sir Pen-y-bont ar Ogwr dri chwestiwn i'r defnyddwyr gwasanaeth hyn, sef:
- A yw'r addasiad wedi'u helpu ac wedi gwneud gwahaniaeth?
  - A yw'r addasiad wedi'u galluogi i fod yn fwy annibynnol?
  - A oes ganddynt unrhyw sylwadau pellach?
- 12 Mae canlyniadau arolwg Gofal a Thrwsio Sir Pen-y-bont ar Ogwr yn llai cadarnhaol na chanlyniadau ein harolwg dros y ffôn. Dengys canlyniadau arolwg Gofal a Thrwsio Sir Pen-y-bont ar Ogwr y canlynol:
- Dywedodd 57 o'r 97 (59%) o ddefnyddwyr gwasanaeth fod yr addasiad i'w dŷ wedi'u helpu ac wedi gwneud gwahaniaeth;
  - Dywedodd 50 o'r 97 o ddefnyddwyr gwasanaeth (52%) fod yr addasiad i'w dŷ wedi galluogi i fod yn fwy annibynnol; a
  - Chyflwynodd 28 o'r 97 o ddefnyddwyr gwasanaeth (29%) sylwadau – gyda'r mwyafrif helaeth o'r sylwadau yn gadarnhaol am eu profiad ac yn canmol y

fel nad ydynt yn peryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain; • cymryd ymagwedd integredig fel eu bod yn edrych ar yr holl nodau llesiant wrth benderfynu ar eu hamcanion llesiant; • cynnwys amrywiaeth o'r boblogaeth yn y penderfyniadau sy'n effeithio arnynt; • gweithio gydag eraill mewn ffordd gydweithredol i ddod o hyd i atebion cynaliadwy a rennir; a • deall achosion sylfaenol problemau er mwyn eu hatal rhag digwydd neu waethygu.



gwasanaeth a gafwyd.

- 13 Gan ddefnyddio canfyddiadau Arolwg Gofal a Thrwsio Sir Pen-y-bont ar Ogwr, mae'r Cyngor wedi pennu mesur perfformiad sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau iddo'i hun er mwyn ei helpu i ddeall effaith y gwasanaeth yn well, sef: Canran y bobl sy'n teimlo y gallant fyw'n fwy annibynnol o ganlyniad i'r addasiad a wnaed i'w gartref, gan bennu targed o 75%.
- 14 Er ein bod yn cydnabod bod data arolwg Gofal a Thrwsio Sir Pen-y-bont ar Ogwr ar gyfer un cyfnod o chwe mis yn unig, mae'n awgrymu bod y Cyngor yn annhebygol o gyflawni ei darged, sef 75% o bobl sy'n teimlo y gallant fyw'n fwy annibynnol o ganlyniad i'r addasiad a wnaed i'w gartref. Felly, mae angen i'r Cyngor ystyried beth mae angen iddo ei wneud er mwyn gwella'r profiadau a'r canlyniadau i ddefnyddwyr gwasanaeth.

**Roedd y rhan fwyaf o ddefnyddwyr gwasanaeth o'r farn bod proses grant cyfleusterau i'r anabl yn hawdd, ond mae'r Cyngor yn cael ymholiadau rheolaidd nad yw yn y sefyllfa orau i'w hateb am fod partion allanol eraill yn dod yn rhan o'r broses wrth iddi fynd rhagddi**

- 15 Yn ein harolwg, nododd 78% o'r bobl y gwnaethom siarad â nhw fod y broses gwneud cais yn hawdd iawn neu'n hawdd. Nododd 6% o'r defnyddwyr gwasanaeth ei bod yn anodd a nododd 11% nad oedd yn hawdd nac yn anodd. Cysylltodd 52% o'r bobl y gwnaethom siarad â nhw â'r Cyngor i ofyn cwestiynau neu gyflwyno sylwadau yn ystod cam gwneud cais y broses.
- 16 Caiff bron pawb sy'n cael addasiadau i'w tai a grantiau cyfleusterau i'r anabl eu hatgyfeirio gan sefydliadau iechyd at Reolwr Tîm y Cyngor ar gyfer Gwasanaethau Cymunedol. Ar ôl i'r Cyngor gael atgyfeiriadau cânt eu dosbarthu'n rhai brys neu arferol (brys – rhwng wythnos a 10 diwrnod; arferol – mewn trefn gronolegol). Dim ond ar ôl i'r defnyddiwr gwasanaeth a'i sefyllfa o ran tŷ gael eu hasesu gan Therapydd Galwedigaethol y penderfynir ar y gwaith addasu priodol, ac a yw'n briodol rhoi grant cyfleusterau i'r anabl.
- 17 Mae'r Therapydd Galwedigaethol yn cynnal yr asesiad ac yn awgrymu'r addasiad mwyaf priodol, yn seiliedig yn bennaf ar ymarferoldeb a chost. Mae ystyriaethau eraill yn cynnwys gofal teulu, gofal preswyl ac opsiynau eraill. Ni chaiff yr holl opsiynau a ystyriwyd gan yr asesiad eu cyfleu i'r defnyddwyr gwasanaeth bob amser. O ganlyniad, gall defnyddwyr gwasanaeth fod o'r farn nad yw'r Cyngor wedi cynnig opsiynau eraill iddynt. O'r 54 o ddefnyddwyr gwasanaeth y gwnaethom siarad â nhw, dywedodd 59% eu bod wedi cael cynnig gwasanaethau eraill yn lle mynd yn syth at yr addasiad, ond dywedodd 41% nad oeddent wedi cael cynnig gwasanaethau eraill. Yn ein harolwg, roedd 85% o ddefnyddwyr gwasanaeth o'r farn bod eu hanghenion, eu barn a'u dymuniadau yn cael eu hystyried yn llawn pan

gafodd eu hangen am addasiad ei asesu gan y Cyngor. Dywedodd 28 (52%) o'r 54 o ddefnyddwyr gwasanaeth a arolygwyd gennym wrthym eu bod wedi cysylltu â'r Cyngor gydag ymholiad yn ystod y broses gwneud cais; gyda thri o'r defnyddwyr gwasanaeth yn nodi nad oeddent yn glir ynglŷn â phwy y dylent gysylltu.

- 18 Mae prosiect addasu tŷ nodweddiadol sy'n cael grant cyfleusterau i'r anabl yn dilyn proses sy'n cynnwys nifer o bartion:

<u>Cam</u>	<u>Gweithgaredd</u>	<u>Gan bwy</u>
1	Atgyfeirio ac Asesu	Gwasanaethau Cymdeithasol y Cyngor
2	Gwneud cais am Grant cyfleusterau i'r anabl a'i ddyfarnu	Gwasanaeth Grant Cyfleusterau i'r Anabl y Cyngor a'r Defnyddiwr Gwasanaeth
3	Penodi Asiant	Defnyddiwr Gwasanaeth
4	Cael dyfynbrisiau gan adeiladwyr cymeradwy	Asiant
5	Ystyried dyfynbrisiau	Y Cyngor, gwasanaeth grantiau cyfleusterau i'r anabl
6	Penodi adeiladwr	Asiant a'r defnyddiwr gwasanaeth
7	Gwneud y gwaith adeiladu	Adeiladwr
8	Asesu'r gwaith a chwblhau'r grant cyfleusterau i'r anabl	Y Cyngor, gwasanaeth grantiau cyfleusterau i'r anabl

- 19 Gallai'r Cyngor helpu defnyddwyr gwasanaeth i ddeall y broses, sy'n aml yn gymhleth, drwy ddogfennu'r llwybr o gysylltu â'r Cyngor i'r adeg pan gwblheir y gwaith.

**Gallai'r Cyngor wneud mwy i helpu defnyddwyr gwasanaeth wneud penderfyniadau hyddysg ynghylch pa asiant ac adeiladwr y dylent eu defnyddio ac atgyfnerthu ei drefniadau ar gyfer eu goruchwylio, gan sicrhau yn benodol fod adeiladwyr yn ddiogel i weithio yng nghartrefi pobl sy'n agored i niwed**

- 20 Ym mhroses y Cyngor, cyfrifoldeb yr ymgeisydd yw penodi'r contractwr adeiladu i gyflawni'r addasiadau tai. Gallant wneud hyn ar eu pen eu hunain neu gyda chymorth asiant cyflawni, megis Gofal a Thrwsio Sir Pen-y-bont ar Ogwr. Nododd 80% o'r defnyddwyr gwasanaeth y gwnaethom siarad â nhw fod cymorth y Cyngor o ran penodi contractwyr adeiladu yn dda neu'n dda iawn.

- 21 Mae'n gadarnhaol bod y Cyngor yn rhoi dewis i'r defnyddiwr gwasanaeth ynghylch pa asiant ac adeiladwr y bydd yn eu defnyddio. Mae hyn yn gyson ag egwyddorion y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, sy'n ceisio rhoi mwy o lais i bobl o ran y gofal a'r cymorth a gânt.
- 22 Ar hyn o bryd, mae'r Cyngor yn rhoi rhestr o asiantau i'r ymgeisydd ond ni all roi unrhyw wybodaeth i'r defnyddiwr gwasanaeth am allu pob asiant i fwrw ymlaen â'r prosiect, am nad yw'n casglu'r wybodaeth hon. At hynny, ni all yr asiant roi unrhyw wybodaeth i'r defnyddiwr gwasanaeth am allu'r adeiladwyr i wneud y gwaith adeiladu na'u perfformiad yn y gorffennol o ran cwblhau gwaith nac ansawdd y gwaith hwnnw. Mae gallu'r adeiladwr i wneud y gwaith adeiladu yn ffactor pwysig yn ogystal â'r gost ariannol ac ansawdd wrth ystyried gwerth am arian yn gyffredinol.
- 23 Nododd Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru yn 2018 ar addasiadau i dai fod y rhan fwyaf o awdurdodau lleol, cymdeithasau tai ac asiantaethau Gofal a Thrwsio wedi sefydlu prosesau i benodi, goruchwyllo a rheoli perfformiad adeiladwyr a/neu gontractwyr. Fodd bynnag, nodwyd ganddo amrywiaeth eang yn y modd y mae sefydliadau cyflenwi'n trefnu gwaith adeiladu, yn ei roi ar gontract ac yn ei gwblhau. Argymhellodd y dylai sefydliadau cyflenwi gyflwyno systemau ffurfiol ar gyfer achredu contractwyr i ymgymryd ag addasiadau, gan gynnwys datblygu systemau effeithiol i reoli a gwerthuso perfformiad contractwyr drwy wneud y canlynol:
- bennu ystod briodol o wybodaeth er mwyn barnu ynghylch perfformiad a chyflawniad y gwaith, gan gynnwys prydlondeb y gwaith; ansawdd y gwaith; adborth gan ddefnyddwyr gwasanaeth; cost y gwaith (gan gynnwys amrywiadau); record o ran iechyd a diogelwch; ac adborth cwsmeriaid;
  - gwerthuso ac adrodd ar berfformiad yn rheolaidd er mwyn canfod cyfleoedd i wella gwasanaethau; a
  - rhoi adborth ffurfiol i gontractwyr am eu perfformiad, gan drafod materion fel boddhad defnyddwyr gwasanaeth, lefel unrhyw amrywio a pha mor dderbyniol yw hynny, gwaith sy'n gywir y tro cyntaf, asesiad ôl-arolygol a chwblhau ar amser ac yn unol â'r gyllideb.
- 24 Nododd ein harolwg nad yw'r Cyngor wedi mynd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn llawn eto.
- 25 Ar hyn o bryd, nid yw'r Cyngor yn ymwneud yn uniongyrchol â'r penodiad na'r broses o fetio adeiladwyr sy'n gwneud gwaith yn nhai derbynwyr grantiau cyfleusterau i'r anabl, a all fod yn aelwydydd sy'n agored i niwed. Rheolir y broses o benodi adeiladwyr gan yr asiant a benodwyd gan y defnyddiwr gwasanaeth. Bu gwasanaeth Gofal a Thrwsio Sir Pen-y-bont ar Ogwr yn rheoli 170 o'r 222 (77%) o'r addasiadau tai drwy'r grant cyfleusterau i'r anabl rhwng mis Mehefin 2017 a mis Gorffennaf 2018. Mae wedi rhoi trefniadau ar waith i asesu a monitro adeiladwyr y maent yn eu hargymell i ddefnyddwyr gwasanaeth. Fodd bynnag, ni allai'r Cyngor gadarnhau bod hynny wedi digwydd yn achos y 52 neu 23% o'r addasiadau tai eraill.
- 26 Yn ystod ein harolwg dros y ffôn, nododd un defnyddiwr gwasanaeth: Anfonodd y Cyngor ffurflen ataf - roeddwn i'n meddwl bod y ffurflen yn cwyno ynghylch yr adeiladwr yn hytrach na rhoi cyfle i mi roi fy marn ar y gwaith a wnaed neu ynghylch p'un a ddiwallwyd fy anghenion ai peidio. Felly, edrychais i ddim ar y ffurflen am fy


mod am anghofio am y profiad gwael a'r dyn ofnadwy.'

- 27 Nododd defnyddiwr gwasanaeth arall: 'Nid oedd yr adeiladwr cyntaf am wneud y gwaith am fod y prosiect mor fach, felly gwnaeth ei drosglwyddo i'r ail adeiladwr. Roedd perchennog y cwmni yn codi ofn arnaf. Cwynais wrtho ynghylch un agwedd ar y gwaith a gwnaeth i mi lefain.'
- 28 Mae trefniadau'r Cyngor ar gyfer grantiau cyfleusterau i'r anabl yn golygu mai'r defnyddiwr gwasanaeth sy'n gyfrifol am gyflogi'r adeiladwr yn uniongyrchol, gyda chymorth asiant pan gaiff un ei benodi. Fodd bynnag, o ystyried y safbwyntiau a fynegwyd gan rai o'r defnyddwyr gwasanaeth yn ystod ein harolwg dros y ffôn, dylai'r Cyngor fodloni ei hun bod mesurau digonol ar waith i ddiogelu defnyddwyr gwasanaeth sy'n agored i niwed pan fydd adeiladwyr yn mynd i mewn i'w cartrefi.

**Roedd y rhan fwyaf o ddefnyddwyr gwasanaeth y gwnaethom siarad â nhw yn fodlon ar yr amser a gymerodd y Cyngor i gymeradwyo eu haddasiadau tai, ond roedd yr amser y mae'r Cyngor yn ei gymryd i ddarparu addasiadau wedi cynyddu yn ystod y blynyddoedd diwethaf**

- 29 Yn ein harolwg dros y ffôn gyda defnyddwyr gwasanaeth, roedd 85% o'r bobl y gwnaethom siarad â nhw naill ai yn 'fodlon iawn' neu'n 'fodlon' ar yr amser a gymerodd y Cyngor i gymeradwyo eu haddasiadau tai. Roedd 9% yn eithaf anfodlon neu'n anfodlon iawn ar yr amser a gymerwyd i gymeradwyo eu haddasiadau.
- 30 O fewn y gyfres o Fesurau Atebolrwydd Cyhoeddus (MAC) a ddiffinnir gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, ac a reolir gan Data Cymru, ceir dangosydd perfformiad (DP) a elwir yn nifer y diwrnodau calendr ar gyfartaledd i roi Grant Cyfleusterau i'r Anabl. Mae pob cyngor yng Nghymru wedi cytuno i gofnodi a chyhoeddi ei berfformiad o ran y DP hwn bob blwyddyn. **Dengys Arddangosyn 2** berfformiad blynyddol y Cyngor ar gyfer y dangosydd hwn ar gyfer y saith mlynedd diwethaf, lle mai'r ffigur isaf yw'r un gorau.
- 31 O gymharu â'r cynghorau eraill yng Nghymru, roedd perfformiad Pen-y-bont ar Ogwr uwchlaw cyfartaledd Cymru ar gyfer y pedair blynedd rhwng 2011-12 a 2014-15. Gwaethygodd perfformiad gwirioneddol a chymharol Pen-y-bont ar Ogwr yn 2015-16. Er iddo wella mewn termau gwirioneddol a chymharol yn 2016-17, serch hynny nid oedd ei berfformiad uwchlaw cyfartaledd Cymru. **Dengys Arddangosyn 3** berfformiad cymharol y Cyngor.


**Arddangosyn 2 – parhaodd perfformiad Cyngor Pen-y-bont ar Ogwr i wella bob blwyddyn rhwng 2010-11 a 2014-15, ond ers hynny mae wedi methu â chyrraedd y safon yn ystod y ddwy flynedd diwethaf.**



Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o ddata Data Cymru

**Arddangosyn 3 – bu perfformiad Pen-y-bont ar Ogwr o gymharu â Chynghorau eraill yng Nghymru islaw'r cyfartaledd dros y ddwy flynedd diwethaf**

Tueddinell o ran Safle Pen-y-bont ar Ogwr o'i gymharu ag Awdurdodau Unedol eraill yng Nghymru: PSR/002: Nifer y diwrnodau calendr ar gyfartaledd i roi Grant Cyfleusterau i'r Anabl (y ffigur isaf yw'r un gorau)



Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o ddata Data Cymru

- 32 Mae'r Cyngor wedi ailstrwythuro ei dîm cymunedol ac wedi colli cyfran sylweddol o'i weithlu profiadol. Dywedodd y Cyngor wrthym fod y broses atgyfeirio gyfan bellach yn cymryd llawer mwy o amser o gymharu ag ychydig flynyddoedd yn ôl. Ategir hyn gan berfformiad y Cyngor a ddangosir yn y diagramau uchod. Mae oedi sylweddol cyn cynnal asesiadau yn debygol o amharu ar allu defnyddwyr gwasanaeth i barhau i fyw yn eu cartref eu hunain.
- 33 Nid y Cyngor sy'n bennaf cyfrifol am reoli pob cam o broses grantiau cyfleusterau i'r anabl. Mae'n trosglwyddo'r broses i'r defnyddiwr gwasanaeth sy'n penodi asiant ac wedyn i'r asiant sy'n rheoli'r adeiladwr i wneud y gwaith adeiladu. Mae'r Cyngor yn adennill rheolaeth i werthuso'r gwaith adeiladu. Soniodd nifer o swyddogion y Cyngor am eu rhwystredigaeth bod perfformiad eraill yn cael effaith uniongyrchol ar berfformiad canfyddedig y Cyngor yn erbyn y mesur atebolrwydd cyhoeddus. O gofio mai'r Cyngor sy'n bennaf cyfrifol am addasiadau a'r grantiau, byddai'n fuddiol pe bai gan y Cyngor reolaethau priodol ar waith er mwyn sicrhau y caiff proses grantiau cyfleusterau i'r anabl ei goruchwyllo'n well.

## Mae lle i'r Cyngor atgyfnerthu ei drefniadau ar gyfer gwerthuso'r gwasanaeth addasiadau tai er mwyn ei helpu i ddysgu a gwella'r gwasanaeth

- 34 Mae'r Cyngor yn archwilio'r gwaith addasu tai er mwyn sicrhau ei fod wedi'i gwblhau yn unol â'r fanyleb ac yn gofyn i'r defnyddwyr gwasanaeth am eu barn ar ôl i'r gwaith addasu gael ei gwblhau. Fodd bynnag, nododd ein harolwg dros y ffôn fod 59% o ddefnyddwyr gwasanaeth y gwnaethom siarad â nhw wedi dweud nad oedd y Cyngor wedi gofyn am eu hadborth ar y gwasanaeth a ddarparwyd. Nodwyd gennym hefyd fod 48% o'r ymatebwyr wedi dweud nad oedd y Cyngor wedi gofyn iddynt p'un a oedd yr addasiad roeddent wedi'i gael wedi diwallu eu hanghenion, tra bod 43% wedi dweud bod y Cyngor wedi gofyn y cwestiwn hwnnw iddynt. Nid oedd 9% yn gwybod.
- 35 Nododd ein hadolygiad hefyd, y tu allan i dîm Adnewyddu Cynaliadwy'r Cyngor, mai prin yw'r ymwybyddiaeth o arolwg y Cyngor o fewn y Cyngor ac nad yw canlyniadau'r arolwg hwn yn cael eu rhannu'n eang ym mhob rhan o'r sefydliad, er enghraifft â Therapyddion Galwedigaethol a'r Gwasanaethau Cymdeithasol. Mae hyn yn cyfyngu ar y defnydd a wneir o'r canlyniadau i lywio a gwella'r gwasanaeth. Byddai'r ddefnyddiol pe bai'r Cyngor yn rhannu canlyniadau'r arolwg gan gydnabod bod y gwasanaeth yn cynnwys amrywiaeth o adrannau ac asiantaethau gwahanol.
- 36 Nodwyd gennym hefyd fod lle i'r Cyngor wella cynllun yr arolwg a'r ffordd y caiff ei gynnal er mwyn iddo ddarparu digon o wybodaeth er mwyn helpu i wella'r gwasanaeth:
- Ymestyn yr ystod o gwestiynau yn yr arolwg er mwyn deall barn defnyddwyr gwasanaeth yn well, yn hytrach na dim ond ceisio nodi lefelau boddhad cyffredinol defnyddwyr gwasanaeth. Er enghraifft, mae'r Cyngor yn colli cyfle i ddysgu gan brofiadau defnyddwyr gwasanaeth drwy beidio â cheisio nodi'r rhesymau dros unrhyw farn negyddol sydd gan ddefnyddwyr gwasanaeth.
  - Am fod y broses o wneud cais a chwblhau'r gwaith addasu yn gallu cymryd hyd at 12 mis fel arfer – dylid ystyried amseroldeb yr arolwg; efallai y dylid ystyried cynnal arolwg ar ôl i gamau allweddol gael eu cwblhau, yn hytrach na dim ond ar ôl i'r gwaith gael ei gwblhau; a
  - Sicrhau bod y swyddog sy'n cynnal yr arolwg boddhad yn annibynnol ar broses grantiau cyfleusterau i'r anabl, er mwyn osgoi dylanwadu ar y defnyddiwr gwasanaeth.

Swyddfa Archwilio Cymru

24 Cathedral Road

Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Textphone.: 029 2032 0660

E-bost: [info@audit.wales](mailto:info@audit.wales)

Gwefan: [www.audit.wales](http://www.audit.wales)

Swyddfa Archwilio Cymru

24 Heol y Gadeirlan

Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: [post@archwilio.cymru](mailto:post@archwilio.cymru)

Gwefan: [www.archwilio.cymru](http://www.archwilio.cymru)